



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygiadau darparwyr Cymraeg i Oedolion

o Fedi 2020

estyn.llyw.cymru
@EstynAEM

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

©Hawlfraint y Goron 2020: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyflwyniad	1
Diben y llawlyfr arweiniad	1
Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu darparwyr Cymraeg i Oedolion	1
Cefndir polisi	1
Rhan 1: Trefniadau arolygu	2
Cyflwyniad	2
Egwyddorion arolygu	2
Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr	3
Disgwyliadau darparwyr	3
Materion iechyd a diogelwch a lles	4
Ymateb i honiad ynghylch diogelu	4
Dull arolygu	4
Yr Ystafell Arolygu Rithwir	4
Y tîm arolygu	5
Cysylltu â'r darparwr cyn yr arolygiad	5
Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm	6
Yn ystod yr arolygiad	6
Ar ôl yr arolygiad	9
Sicrhau ansawdd arolygiadau	10
Rhan 2: Meysydd arolygu a gofynion adrodd	11
Y Fframwaith Arolygu Cyffredin	11
Llunio barnau	12
Ynglŷn â'r darparwr	12
Crynodeb	13
Argymhellion	13
Beth sy'n digwydd nesaf?	13
Meysydd arolygu	13
1 Safonau	14
2 Lles ac agweddau at ddysgu	15
3 Addysgu a phrofiadau dysgu	16
4 Gofal, cymorth ac arweiniad	18
5 Arweinyddiaeth a rheolaeth	19
Sail dystiolaeth yr arolygiad	22
Atodiad 1: Arweiniad ar gyfer arolygiadau o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Cymraeg i Oedolion) o Fedi 2020	23

Cyflwyniad

Diben y llawlyfr arweiniad

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r ffordd y bydd yr arolygiaeth yn cynnal arolygiadau o ddarparwyr Cymraeg i Oedolion o Fedi 2019 ymlaen. Mae'n amlinellu'r trefniadau arolygu ar gyfer darparwyr ac yn cynnig arweiniad i arolygwyr ar lunio barnau arolygu.

Gall darparwyr Cymraeg i Oedolion ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau yn gweithio a'u helpu i gyflawni eu hunanwerthusiad eu hunain.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru

Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu darparwyr Cymraeg i Oedolion

Yn y sector ôl-16, mae Deddf Dysgu a Sgiliau (2000) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Arolygydd adrodd ar y canlynol:

- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir;
- y safonau a gyflawnir gan y rheiny sy'n derbyn addysg a hyfforddiant;
- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, gan gynnwys a yw'r adnoddau ariannol y trefnwyd eu bod ar gael i'r rheiny sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio i ddarparu gwerth am arian.

Cefndir polisi

Er nad yw'n cael ei lywodraethu'n uniongyrchol gan y polisiau a'r confensiynau canlynol, mae'r llawlyfr arweiniad yn ystyried y canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy>

Rhan 1: Trefniadau arolygu

Cyflwyniad

Mae'r adran hon wedi'i chyflwyno mewn ffordd sy'n adlewyrchu dilyniant y gwaith cyn, yn ystod ac ar ôl arolygiad craidd.

Mae'r arolygydd cofnodol (ACof) yn gyfrifol am gynnal a rheoli'r arolygiad, ac am yr adroddiad arolygu. Er bod yr arweiniad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl yr arolygydd cofnodol, rhaid i holl aelodau'r tîm gydymffurfio â'r un gofynion arolygu.

Egwyddorion arolygu

Bydd arolygwyr:

- yn sicrhau bod arolygu o ansawdd uchel ac yn ymatebol i anghenion pob dysgwr
- yn sicrhau bod barnau yn gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn cynnwys darparwyr yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys cyfle i'r darparwr ddewis enwebai
- yn defnyddio hunanasesiad y darparwr fel y man cychwyn ar gyfer yr arolygiad ac i nodi materion allweddol ar gyfer ymchwilio iddynt er mwyn llunio barnau ar ddilysrwydd canfyddiadau'r adroddiad
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu, lle y bo'n briodol
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennaeth a pharatoi gan y darparwr
- yn cael safbwynt dysgwyr, staff a llywodraethwyr (lle bo'n briodol), a safbwynt rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog pa bryd bynnag y byddant yn briodol
- yn adeiladol wrth nodi a chefnogi darparwyr sydd ag agweddau pwysig neu wendidau i'w gwella

Cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr

Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni safonau cod ymddygiad Estyn. Wrth gynnal yr arolygiad, bydd arolygwyr:

- yn gwneud eu gwaith gyda didwylledd, cwrteisi a sensitifrwydd priodol
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiuedd
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith

Mae'n bwysig bod arolygwyr yn barnu effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu cyfraniad at ddeilliannau ac nid ar sail unrhyw ffafriaeth am ddulliau penodol. Yr allwedd i'r farn yw p'un ai a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas i'r diben o ran cynorthwyo pob dysgwr i gyflawni safonau uchel a lefelau cadarn uchel o les.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y byddant yn cael hysbysiad eu bod yn rhan o'r arolygiad o'r darparwr.

Disgwyliadau darparwyr

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol ac yn fuddiol, mae'n bwysig bod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol y naill at y llall. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad Estyn, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol
- cymhwyso eu codau ymddygiad eu hunain wrth ddelio gydag arolygwyr
- galluogi arolygwyr i gynnal eu harolygiad mewn ffordd agored a gonest
- galluogi arolygwyr i werthuso'r ddarpariaeth yn wrthrychol yn erbyn y Fframwaith Arolygu Cyffredin
- defnyddio systemau electronig Estyn ar gyfer rheoli arolygiadau fel bo'r gofyn
- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i adrodd yn onest, yn deg ac yn ddibynadwy am y darparwr
- cynnal trafodaethau pwrpasol gyda'r arolygydd ac arolygwyr eraill
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill heb fod rheolwr neu uwch arweinydd yn bresennol
- tynnu sylw arolygwyr at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas trwy'r enwebai neu uwch reolwr
- gweithio gydag arolygwyr i sicrhau cyn lleied o aflonyddwch a straen ag y bo modd trwy gydol yr arolygiad
- sicrhau iechyd a diogelwch yr arolygwyr tra byddant ar eu safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau'r arolygiad hyd nes bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n derfynol

Adeg yr hysbysiad ynghylch yr arolygiad, dylai darparwyr adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb darparwyr yw amlygu unrhyw achos canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau eu harolygiad.

Materion iechyd a diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad yr arolygiaeth ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd yn risg wirioneddol i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu ddysgwyr, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn y darparwr. Ym mhob achos, dylai arolygwyr wneud nodyn electronig ar wahân o'r bygythiad a'u bod wedi rhoi gwybod i reolwyr amdano. Dylai arolygwyr adrodd ar enghreifftiau amlwg o dorri deddfwriaeth iechyd a diogelwch o dan faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad). Lle bo'r rhain yn bryder difrifol, dylai arolygwyr gynnwys argymhelliad yn yr adroddiad a bydd Estyn yn anfon llythyr at y darparwr yn gofyn iddynt amlinellu'r modd y byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg.

Ymateb i honiad ynghylch diogelu

Os tynnir sylw arolygydd at honiad/amheuaeth ynghylch diogelu sy'n ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sy'n agored i niwed, dylai ddilyn y gweithdrefnau fel y maent wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu', sydd ar gael ar wefan Estyn.

Dull arolygu

Y man cychwyn ar gyfer arolygu yw gwerthusiad y darparwr o'i berfformiad ei hun, wedi'i ategu gan dystiolaeth berthnasol. Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd ar y gwaith yn fanwl yn ystod arolygiad craidd. Byddant yn cymryd sampl o dystiolaeth i brofi gwerthusiad y darparwr ei hun o'i waith.

Y cynnydd a wna dysgwyr o'u manau cychwyn a'r safonau a gyflawnir ganddynt yw mesurau allweddol ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant y maent wedi'u cael ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwr. Bydd arolygiadau yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, eu hagweddau at ddysgu a'r effaith a gaiff y ddarpariaeth ar gefnogi eu cynnydd a'r safonau a gyflawnir ganddynt.

Gall y cyfnod arolygu a nifer yr arolygwyr amrywio yn ôl maint y darparwr.

Bydd pob Adroddiad Arolygu yn ymdrin â'r holl feysydd arolygu sy'n cael sylw yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Byddwn yn cynnal pob arolygiad yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru.

Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Bydd yr arolygiaeth yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) ar gyfer rheoli sawl agwedd ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i ddarparwyr lwytho gwybodaeth i fyny cyn yr arolygiad a lawrlwytho arweiniad oddi wrth yr arolygiaeth am y broses arolygu. Hefyd, yr YAR yw'r man lle gall darparwyr fynd at y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg gan yr arolygydd cofnodol ar ddechrau'r arolygiad a'r holiaduron ôl-arolygiad.

Y tîm arolygu

Bydd timau arolygu yn cael eu harwain gan arolygydd cofnodol (AEM neu arolygydd ychwanegol), a bydd aelodau eraill o'r tîm yn cael eu dewis o blith AEM neu arolygwyr ychwanegol. Gallai arolygwyr ychwanegol fod ar secondiad neu dan gcontract i'r arolygiaeth. Hefyd, bydd pob tîm yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid a ddaw o ddarparwyr Cymraeg i Oedolion eraill. Ni fydd arolygwyr cymheiriaid yn cael eu defnyddio wrth arolygu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae'r arolygydd cofnodol yn rheoli'r tîm arolygu, ac ef/hi yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r arolygiad.

Byddwn yn gwahodd darparwyr i ddewis uwch aelod o staff, o'r enw'r enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn derbyn y gwahoddiad, ond nid yw'n ofynnol. Dylai'r enwebai fod â swydd ar lefel ddigon uchel i fod yn gyswllt rhwng y darparwr a'r tîm arolygu ond nid oes angen iddo/iddi fod yn arweinydd y darparwr. Gall darparwyr fynd at yr arweiniad i enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad o ddolenni o fewn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), wedi'i llenwi gan y Cydlynnydd Arolygu (CydAr) ac mae ar gael trwy'r YAR.

Cysylltu â'r darparwr cyn yr arolygiad

Bydd y darparwr yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd am yr arolygiad.

Ar ôl hyn, bydd yr arolygiaeth yn ffonio'r darparwr i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Y cydlynwyr arolygu (CydAr) yn Estyn fydd yn cysylltu â darparwyr i ddechrau. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y Cydlynnydd Arolygu:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer ei chael ar ffurf electronig drwy gyfrwng yr Ystafell Arolygu Rithwir (YAR)
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt ac yn gofyn am sesiwn frifffio gyffredinol ynghylch iechyd a diogelwch ar gyfer y tîm ar ddechrau'r arolygiad
- yn pennu a yw'r darparwr yn dymuno cael enwebai, ac os felly, yn cytuno ar rôl yr enwebai
- yn cytuno ar drefniadau ar gyfer trefnu cyfarfod gyda phartneriaid, os yw'n briodol
- yn trefnu bod tystiolaeth ategol ar gael, gan gynnwys samplau o waith dysgwyr, os yw'n briodol
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gwynion a allai godi yn ystod yr arolygiad
- yn trefnu i aelod o'r corff llywodraethol/rheoli (lle bo'n briodol) gyfarfod ag arolygwyr yn ystod y cyfnod arolygu (e.e. Pennaeth Cyfadran, Ysgol ac ati)
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, er enghraifft ystafell ar gyfer yr arolygwyr, parcio a chysylltiad â'r rhyngwyd
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ynghylch canfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiadur ôl-arolygiad
- yn rhoi gwybod i'r darparwr y bydd materion allweddol y trefniadau yn cael eu cadarnhau yn ysgrifenedig

Bydd yr arolygiaeth yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan y darparwr trwy'r Ystafell Arolygu Rithwir cyn gynted ag y bo modd yn dilyn yr hysbysiad ffurfiol o'r arolygiad:

- gwybodaeth allweddol am gefndir y darparwr
- copi o adroddiad hunanwerthuso (AHA) diweddaraf y darparwr a'i gynllun datblygu ansawdd (CDA)
- nifer y dysgwyr a'u lleoliadau
- gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr
- manylion am amserleni'r darparwr ar gyfer cyfnod yr arolygiad
- dyddiad (fel y cytunwyd gyda'r arolygydd cofnodol) ar gyfer y drafodaeth gynllunio gychwynnol

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i ddarparwyr am yr arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i gynnal arolwg cyfrinachol ar-lein o ddysgwyr. Hefyd, bydd Estyn yn darparu holiadur ar-lein cyn-arolygiad ar gyfer yr holl staff addysgu a staff cymorth sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y darparwr. Bydd canlyniadau'r arolygon yn llunio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad ac yn helpu arolygwyr i lunio cwestiynau datblygol i ymchwilio iddynt.

Yn ystod yr arolygiad, gallai arolygwyr gyfweld â charfan o ddysgwyr, staff addysgu neu staff cymorth fel rhan o'u proses i gasglu tystiolaeth.

Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Gan ystyried hunanwerthusiad y darparwr ac unrhyw wybodaeth sydd eisoes ym meddiant yr arolygiaeth, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu.

Bydd yr arolygiaeth yn trefnu cael gwybodaeth am y darparwr oddi wrth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Bydd yr arolygydd cofnodol yn defnyddio'r wybodaeth cyn-arolygiad i lywio gweithgarwch arolygu cychwynnol y tîm. Bydd y darparwr yn derbyn y cwestiynau sy'n dod i'r amlwg trwy'r YAR ar fore cyntaf yr arolygiad. Ar ôl iddo gyrraedd, bydd yr arolygydd cofnodol yn briffio'r tîm yn ystod y cyfarfod tîm cychwynnol.

Mae arolygiadau'n cynnwys arsylwi addysgu, hyfforddi a gwaith arall gyda dysgwyr. Mae disgwyl i ddarparwyr anfon cynllun llawn o'r holl weithgareddau a fwriedir, gan gynnwys dysgu anffurfiol, yn ystod wythnos yr arolygiad. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau oddi ar y safle a lleoliadau dysgwyr yn y gymuned. Ar sail y wybodaeth sy'n dod i law, bydd yr arolygwyr yn cynllunio'u harsylwadau o addysgu a dysgu.

Yn ystod yr arolygiad

Y cyfarfod tîm cychwynnol

Yng nghyfarfod cychwynnol y tîm arolygu, dylai aelod o staff y darparwr roi briff ar ddiogelu ac iechyd a diogelwch, a gall y darparwr roi datganiad sefyllfa bras ar ei flaenoriaethau strategol a'i gyfnod datblygu presennol. Ar ôl hynny, dylai'r tîm drafod y strategaeth ar gyfer yr arolygiad, gan ganolbwyntio i ddechrau ar y cwestiynau sy'n

dod i'r amlwg o hunanwerthusiad y darparwr. Bydd arolygwyr yn samplu, yn profi ac yn dilysu'r gwerthusiadau a wnaed gan y darparwr. Dylai'r trafodaethau ganolbwyntio ar y dystiolaeth y mae angen ei hadolygu. Bydd hyn yn cynnwys teithiau dysgu, craffu ar waith ysgrifenedig dysgwyr a chyfweliadau â dysgwyr, staff a rhanddeiliaid eraill.

Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel y gallant fynd i'r afael â'r gofynion adrodd yn y pum maes arolygu a'r cwestiynau datblygol o'r adolygiad o'r wybodaeth cyn- arolygu. Bydd y tîm yn sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i adolygu'r dystiolaeth allweddol y mae ei hangen i lunio'u barnau. Dyma'r prif fathau o dystiolaeth:

- gwybodaeth a data gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys gwybodaeth am ddeilliannau, perfformiad a chynnydd dysgwyr
- arsylwi addysgu, hyfforddi a gweithgareddau eraill
- craffu ar waith dysgwyr, gan gynnwys gwaith llafar a welwyd yn ystod yr arolygiad
- barn dysgwyr, staff a rhanddeiliaid eraill
- trafodaethau gyda dysgwyr, arweinwyr, rheolwyr, llywodraethwyr neu fyrddau goruchwyllo.

Bydd arsylwadau uniongyrchol o fedrau ymarferol a gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn cael eu defnyddio gan y tîm lle bynnag y bo modd i gasglu tystiolaeth i ategu eu barnau. Gall arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith dysgwyr i fodloni anghenion cwestiwn datblygol penodol neu ymestyn eu hymchwiliad i agwedd benodol.

Bydd arolygwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i gasglu tystiolaeth ar gyfer eu gwerthusiad o gynnydd dysgwyr ac ansawdd darpariaeth y darparwr. Gall hyn gynnwys teithiau dysgu (lle bo'n briodol), pan fydd arolygwyr yn symud yn gymharol gyflym drwy nifer o sesiynau hyfforddi yn bwrw golwg ar agwedd benodol ar y ddarpariaeth, cael sgysiau â dysgwyr dethol am eu gwaith, a chynnal trafodaethau â thiworiaid unigol am gynnydd dysgwyr yn eu sesiynau hyfforddi, a'r modd y maent yn cynllunio gwaith i fodloni eu hanghenion. Yn ogystal, gallant gynnal arsylwadau hwy o ystafelloedd dosbarth.

Mae llais y dysgwr yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer arolygwyr. Bydd trafodaethau gyda dysgwyr yn gyfle i archwilio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u gwaith a'u medrau. Bydd hefyd yn helpu arolygwyr i bwysu a mesur pa mor dda y mae'r darparwr yn cefnogi dysgwyr ac yn cyfrannu at eu lles, yn eu barn nhw.

Dylai darparwyr drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i farnu cynnydd dysgwyr er mwyn llunio safbwynt am y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni o'i gymharu â manau cychwyn a'r ffordd y mae tiwtoriaid a hyfforddwyr yn defnyddio'r wybodaeth.

Bydd angen i'r tîm ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y darparwr a phrofi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

Pan nad y pennaeth/rheolwr darpariaeth y darparwr yw'r enwebai, mae'n bwysig bod yr arolygydd cofnodol yn cynnal cyfarfod dyddiol byr gyda'r pennaeth/darparwr a'r enwebai i egluro materion arolygu a chanfyddiadau bras y tîm arolygu sy'n dod i'r amlwg.

Cofnodi tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn defnyddio amrywiol ffurflenni i gofnodi a choladu eu canfyddiadau a'u barnau. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni yn electronig fel rhan o system electronig Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau arolygu.

Cyfarfodydd tîm

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw llunio safbwynt corfforaethol, cywir, dibynadwy a dilys am safonau ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Bydd cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i arolygwyr:

- brofi'r barnau yn hunanwerthusiad y darparwr
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- adolygu ymweliadau â dysgwyr
- datrys materion cyn-arolygiad a chwestiynau sy'n dod i'r amlwg
- nodi unrhyw fylchau yn sail y dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad ac unrhyw argymhellion

Deialog broffesiynol

Ar ddiwedd sesiwn arsylwi gwers, dylai arolygwyr gynnal deialog broffesiynol fer gyda'r aelod staff sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod yr arolygiad.

Dylai prif ffocws y drafodaeth fod ar y dysgwyr, y cynnydd a wnaed ganddynt yn ystod y wers a'r safonau a gyflawnwyd yn ystod y gweithgaredd. Dylai'r arolygydd bwysleisio mai barnau dros dro sy'n dod yw'r amlwg yw'r rhain ar un agwedd ar sail y dystiolaeth, ac y gellir diwygio'r holl farnau, ar ôl myfyrio arnynt, ar ôl craffu ar waith dysgwyr neu siarad â dysgwyr, neu o ganlyniad i safoni o fewn y tîm. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu o ran y gweithgaredd penodol a welwyd. O ganlyniad i natur teithiau dysgu, sydd â ffocws craff, (os cânt eu defnyddio yn ystod gweithgarwch arolygu), a lledaenu'r gweithgarwch ar draws nifer o weithgareddau mewn cyfnod cymharol fyr, ni fydd modd i arolygwyr gynnig deialog broffesiynol i athrawon, hyfforddwyr neu aseswyr unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu.

Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan ar y safle o'r arolygiad, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i arweinwyr a rheolwyr. Dylai'r darparwr wahodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i'r cyfarfod hwn. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y prif farnau ar gyfer pob un o'r pum maes arolygu, a'r rhesymau dros ddyfarnu'r barnau hyn.

Mae'r cyfarfod adborth yn rhoi cyfle i arweinwyr a rheolwyr glywed y barnau a myfyrio arnynt. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a'r

ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio i'r darparwr y gellir cywiro materion ffeithiol a gellir egluro barnau, ond na ellir eu trafod.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm hefyd yn ystyried a oes yna unrhyw arfer effeithiol yn y darparwr y mae'n werth i ddarparwyr eraill ei hystyried. Yn yr achos hwn, bydd yr arolygydd cofnodol yn gofyn i'r darparwr baratoi astudiaeth (neu astudiaethau) achos i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Mae'r holl farnau yn ystod arolygiad yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEM. Maent yn gyfrinachol i staff a llywodraethwyr y darparwr (lle bo'n briodol). Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol, hyd nes i Estyn gyhoeddi'r adroddiad ar ei wefan.

Cwynion am y dull o gynnal yr arolygiad

Os bydd unrhyw faterion yn codi ynglŷn â'r dull o gynnal yr arolygiad yn gyffredinol neu ymddygiad arolygwyr unigol, yna dylai'r darparwr, trwy'r enwebai, godi'r materion hyn gyda'r arolygydd cofnodol yn uniongyrchol, a chyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r darparwr aros tan ar ôl yr arolygiad, ond dylai godi unrhyw faterion yn ystod yr arolygiad ar y safle. Mae materion yn aml yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth, ac fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol yn y darparwr yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad i ddarparwyr ynglŷn â gweithdrefnau cwyno Estyn ar wefan Estyn.

Ar ôl yr arolygiad

Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg ac yn ddefnyddiol i'r darparwr.

Pan fyddant yn ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn sydd ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau yn ddwyieithog lle y gofynnwyd am hyn, yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg Estyn.

Mae strwythur yr adroddiad arolygu wedi'i seilio ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin a bydd ar y ffurf ganlynol:

Ynglŷn â'r darparwr

Crynodeb

Argymhellion

Beth sy'n digwydd nesaf

Prif ganfyddiadau

- 1 Safonau
- 2 Lles ac agweddau at ddysgu

- 3 Addysgu a phrofiadau dysgu
- 4 Gofal, cymorth ac arweiniad
- 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Byddwn yn llunio'r adroddiad o fewn graddfeydd amser statudol neu raddfeydd amser cytûn ar gyfer y sector.

Y gwiriad cywirdeb ffeithiol

Bydd yr arolygiaeth yn rhoi drafft hwyr o'r adroddiad i'r darparwr er mwyn helpu i wirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Bydd gan y darparwr bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw gamgymeriadau ffeithiol.

Mae'r gwiriad cywirdeb ffeithiol yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw'n canolbwyntio ar y canfyddiadau na'r barnau. Ceir arweiniad pellach i ddarparwyr ar natur a chwmpas y gwiriad cywirdeb ffeithiol ar wefan Estyn.

Dylai'r darparwr godi unrhyw gŵynion am y dull o gynnal yr arolygiad yn ystod yr arolygiad ar y safle. Fodd bynnag, os bydd y darparwr yn parhau i fod â chwynion heb eu datrys am y dull o gynnal yr arolygiad ar ôl diwedd yr arolygiad ar y safle, yna dylai gyfeirio at weithdrefnau Estyn ar gyfer trin cwynion ar wefan Estyn. Mae'r gweithdrefnau'n canolbwyntio ar y dull o gynnal yr arolygiad, ac nid ar y canfyddiadau na'r barnau a luniwyd gan y tîm arolygu.

Sicrhau ansawdd arolygiadau

Mae'r arolygiaeth wedi ymrwymo i:

- ddewis, hyfforddi, briffio, cefnogi a defnyddio arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr ychwanegol
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd gyda'r enwebai a'r uwch reolwr yn ystod arolygiad
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r arweiniad
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- adborth llafar diamwys ar ganfyddiadau'r tîm, a barnau ar gyfer pob maes arolygu
- adroddiadau clir, cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Fel rhan o'i gweithdrefnau sicrhau ansawdd, mae'r arolygiaeth yn gwahodd darparwyr i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael i ddarparwyr yn yr YAR. Dylai darparwyr lenwi rhan gyntaf yr holiadur ar unwaith yn dilyn yr arolygiad, a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Gall darparwyr lenwi ail ran yr holiadur yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad arolygu, eto drwy system yr YAR.

Dylai darparwyr godi unrhyw bryderon am ymddygiad arolygydd yn ystod yr arolygiad cyn gynted â phosibl gyda'r arolygydd cofnodol.

Yr arolygydd cofnodol fydd yn sicrhau ansawdd yr arolygiad yn y lle cyntaf. Bydd yr arolygiaeth yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau ar y safle a bydd yn sicrhau ansawdd pob adroddiad arolygu cyn eu cyhoeddi ar wefan Estyn. Mae trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau a'r trefniadau ar gyfer delio â chwynion ar gael ar wefan yr arolygiaeth, sef www.estyn.llyw.cymru.

Rhan 2: Meysydd arolygu a gofynion adrodd

Mae'r arweiniad sy'n dilyn yn amlinellu'r modd y dylai arolygwyr ymdrin ag adrannau amrywiol yr adroddiad arolygu a'r hyn y mae angen iddynt ei ystyried wrth werthuso pum maes arolygu'r fframwaith arolygu cyffredin.

Y Fframwaith Arolygu Cyffredin

Mae pum maes arolygu'r fframwaith arolygu cyffredin wedi'u hamlinellu isod.

Mae pob maes arolygu'n cynnwys gofynion adrodd, sef yr agweddau y mae'n rhaid i'r tîm arolygu eu cwmpasu wrth adrodd ar bob darparwr.

Y Fframwaith Arolygu Cyffredin

1 – Safonau

- 1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
- 1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
- 1.3 Safonau a chynnydd mewn medrau

2 – Lles ac agweddau at ddysgu

- 2.1 Lles
- 2.2 Agweddau at ddysgu

3 – Addysgu a phrofiadau dysgu

- 3.1 Ansawdd yr addysgu
- 3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y ddarpariaeth
- 3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

4 – Gofal, cymorth ac arweiniad

- 4.1 Orlhain, monitro a darparu cymorth dysgu
- 4.2 Datblygiad personol
- 4.3 Diogelu

5 – Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
- 5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- 5.3 Dysgu proffesiynol
- 5.4 Defnyddio adnoddau

Llunio barnau

Bydd y tîm arolygu yn rhoi barn ar gyfer pob maes arolygu o'r raddfa bedwar pwynt isod.

Rhagorol – Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig

Da – Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau

Digonol ac angen gwelliant – Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella

Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys – Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Bydd arolygwyr yn llunio'u barnau drwy ystyried a phwyso a mesur pwysigrwydd y cryfderau a'r gwendidau ym mhob maes arolygu. Bydd yr adroddiad ar bob maes arolygu yn adlewyrchu a chefnogi'r farn berthnasol.

Daw gwendidau'n bwysig pan fyddant yn cael effaith arwyddocaol ar safonau a/neu les. Bydd cryfderau yn aml i'w gweld pan geir agweddau pwysig y mae angen eu gwella. Fodd bynnag, pan geir agweddau pwysig y mae angen eu gwella, y farn briodol fel arfer fydd 'Digonol ac angen gwelliant', neu 'Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys'.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir mewn perthynas â'r gofynion adrodd ym mhob maes arolygu. Hefyd, byddant yn ystyried pob agwedd ar y gofynion adrodd hyn fel y'u hamlinellir yn y llawlyfr arweiniad arolygu. Fodd bynnag, gall yr hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob gofyniad adrodd amrywio yn ôl arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn ei ddarganfod ym mhob darparwr.

Gall arolygwyr adrodd 'trwy eithriad'. Ystyr hyn yw y gallant adrodd ar rai agweddau pan fydd cryfderau penodol neu wendidau arwyddocaol yn unig.

Ynglŷn â'r darparwr

Dylai'r adran hon o'r adroddiad fod yn fyr a dylai gynnwys gwybodaeth gefndir ffeithiol am y darparwr. Ni ddylai'r adran gynnwys unrhyw werthusiad o'r darparwr na'i ddarpariaeth. Gan amlaf, bydd yr arolygydd cofnodol yn cytuno ar gynnwys yr adran hon gyda'r darparwr yn ystod yr arolygiad ac yn ystod gwiriad ffeithiol y darparwr o'r adroddiad drafft cyn ei gyhoeddi. Pan fydd anghytuno ynglŷn â chynnwys yr adran hon, yr arolygydd cofnodol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â beth i'w gynnwys yn yr adroddiad.

Bydd yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth fras am y canlynol:

- maint, natur a lleoliad y darparwr
- y math o raglenni addysgu a gyflwynir, a'u lefel
- nifer y dysgwyr sy'n cael addysg
- aelodau'r consortiwm/bartneriaeth, os yw'n berthnasol

- gwerth contract y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf
- mis a blwyddyn yr arolygiad blaenorol o'r darparwr
- unrhyw ffactorau perthnasol eraill

Crynodeb

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn cynnwys datganiad cryno byr (100-200 gair, fel arfer) ar ganfyddiadau'r arolygiad.

Dylai'r crynodeb adrodd ar y cryfderau allweddol ac unrhyw agweddau pwysig neu wendidau y mae angen eu gwella. Dylai fod yn gyson â'r canfyddiadau yng nghorff yr adroddiad. Ni ddylai gynnwys un farn drosfwaol ar y darparwr cyfan.

Argymhellion

Dylai'r argymhellion roi syniad clir a phenodol i'r darparwr o'r meysydd i'w gwella y bydd angen iddi fynd i'r afael â nhw. Dylai arolygwyr ysgrifennu'r argymhellion yn nhrefn blaenoriaeth. Dylai'r argymhellion ddeillio o'r prif farnau yn y meysydd arolygu a dylent ddarparu sylfaen glir ac ymarferol y gall y darparwr weithredu arni.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr adran hon o'r adroddiad yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r darparwr ei wneud ar ôl yr arolygiad. Bydd y cynnydd yn erbyn argymhellion yn cael ei fonitro yn yr arolygiadau dilynol o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd yr adroddiad hefyd yn dangos a yw Estyn wedi gofyn i'r darparwr ddarparu astudiaeth achos mewn perthynas ag unrhyw agwedd(au) ar ei waith.

Meysydd arolygu

Ar gyfer pob maes arolygu, rhoddir arweiniad ar ei gynnwys a'r ystyriaethau y dylai arolygwyr eu cadw mewn cof wrth werthuso'r maes.

O fewn pob maes arolygu, gall yr arolygydd cofnodol adrodd ar yr agweddau yn y drefn yr ymddangosant yn y llawlyfr arweiniad neu gallant ddewis rhoi'r agweddau mewn trefn wahanol er mwyn adlewyrchu eu canfyddiadau. Er enghraifft, ym Maes Arolygu 1 - Safonau, gallant ddechrau gyda safonau a chynnydd o ran medrau, yna grwpiau penodol a safonau, a chynnydd cyffredinol ar y diwedd. Ym Maes Arolygu 3 – addysgu a phrofiadau dysgu, gallent ddechrau â'r cwricwlwm ac wedyn addysgu os yw hyn yn gwneud canfyddiadau'r tîm yn gliriach.

Mae arweiniad atodol ar arolygu agweddau amrywiol ar waith darparwyr ar gael ar wefan Estyn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/arweiniad-atodol>

1 Safonau

1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol

Dylai arolygwyr werthuso'r safonau y mae dysgwyr yn eu cyrraedd yn gyffredinol, a barnu p'un a yw'r rhain yn briodol i alluoedd dysgwyr. Dylai arolygwyr gydnabod cynnydd dysgwyr, yn enwedig eu cynnydd tuag at ennill eu cymwysterau neu gyflawni eu nodau personol.

Dylid seilio gwerthusiad arolygwyr o gyflawniad a chynnydd dysgwyr ar arsylwadau sesiynau, craffu ar waith dysgwyr a thrafodaethau gyda dysgwyr. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof, yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, ac yn cymhwyso'r rhain i sefyllfaoedd newydd.

Dylai arolygwyr edrych ar ddata perfformiad sy'n cwmpasu cyfnod o amser, fel arfer dros o leiaf y tair blynedd diwethaf, pan fydd ar gael, i nodi tueddiadau mewn perfformiad. Dylai arolygwyr ddadansoddi data a wiriwyd o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, gan gynnwys data meincnodi, pan fo'n briodol. Dylai arolygwyr ystyried y data perfformiad gan gynnwys cyfraddau cwblhau a dilyniant yng ngoleuni eu tystiolaeth eu hunain o arsylwadau ffurfiol, dysgu anffurfiol a thrafodaethau â dysgwyr a chraffu ar waith ysgrifenedig.

Er y dylai arolygwyr ystyried ystod eang o wybodaeth am safonau a chynnydd dysgwyr, fel arfer dylent ond adrodd ar ddata perfformiad ble caiff y deilliannau eu casglu'n genedlaethol a'u gwirio'n allanol.

Dylai arolygwyr roi sylwadau ar gyfran y dysgwyr sy'n ennill cymwysterau Cymraeg i Oedolion pan fo'n briodol.

1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol

Dylai arolygwyr werthuso cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr, er enghraifft dysgwyr ar wahanol lefelau a mathau o gyrsiau, e.e. cyrsiau dwys, Cymraeg i'r Teulu, cyrsiau yn y gweithle, yn ogystal â dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'r rheiny o grwpiau ethnig lleiafrifol, os yw'r data perthnasol ar gael.

I ddysgwyr ag ADY, bydd barnau am gyflawniad yn cael eu dylanwadu gan y wybodaeth am eu hanghenion a'u galluoedd unigol. Dylai arolygwyr ystyried cyfradd y cynnydd a wna'r dysgwyr hyn mewn perthynas â'u targedau unigol a'u manau cychwyn.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw dysgwyr yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent, o ystyried eu manau cychwyn. Er enghraifft, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr â medrau mwy datblygedig yn cyflawni, a'r graddau y mae'r gwaith a wnânt yn eu hymestyn yn llawn i gyflawni cystal ag y gallent.

1.3 Safonau a chynnydd mewn medrau

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn meddu ar y medrau sydd eu hangen i elwa ar gyfleoedd dilyniant pan fo'n briodol.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol mewn dosbarthiadau wrth gyfathrebu â'i gilydd ac â'r tiwtor. Dylent farnu pa mor dda y mae dysgwyr yn gwneud cynnydd yn eu gallu i ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn dosbarthiadau mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau eraill. Dylai arolygwyr farnu cynnydd dysgwyr wrth siarad Cymraeg â hyder a rhuglder cynyddol yn y Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, a/neu gydag oedolion eraill yn ddigymell. Dylent ystyried yr hyn sy'n rhesymol i'w ddisgwyl, gan ystyried pa mor hir y mae'r dysgwyr wedi bod yn dysgu Cymraeg, a lefel a natur y cwrs y maent yn ei ddilyn ar hyn o bryd.

Dylai arolygwyr farnu safonau mewn medrau ar sail tystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft o arsylwadau o ddysgwyr mewn sesiynau, craffu ar waith dysgwyr, a thrafodaethau â dysgwyr. Bydd arsylwi dysgwyr yn ofalus mewn sesiynau a siarad â dysgwyr yn darparu tystiolaeth o'u medrau siarad a gwrando a'u medrau llythrennedd.

Dylai arolygwyr roi'r pwys mwyaf i fedrau siarad a gwrando dysgwyr.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu a gwella'u medrau yn unigol o'u mannau cychwyn unigol. Dylai arolygwyr ystyried y cynnydd a wna dysgwyr tuag at eu targedau a'u nodau unigol. Dylent siarad â dysgwyr i asesu eu dealltwriaeth o'u targedau, a'r cynnydd y maent wedi'i wneud yn dysgu Cymraeg ers dechrau'r cwrs.

2 Lles ac agweddau at ddysgu

2.1 Lles

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn mwynhau eu dysgu, yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol. Dylai arolygwyr ystyried ymatebion i'r holiaduron cyn-arolygiad gan ddysgwyr a staff mewn perthynas â lles dysgwyr. Dylai arolygwyr ystyried tystiolaeth o arsylwadau o ddysgwyr yn rhyngweithio â'u cyfoedion a staff addysgu hefyd, yn ogystal â thystiolaeth o drafodaethau gydag unigolion a grwpiau.

2.2 Agweddau at ddysgu

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn datblygu'r ymddygiadau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer dysgu gydol oes. Dylent werthuso i ba raddau y mae dysgwyr yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, ac annibynnol. Dylai arolygwyr benderfynu pa mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio eu hamser y tu allan i'r dosbarth i gwblhau eu gwaith. Dylent edrych ar ba mor dda y mae dysgwyr yn ymgysylltu â phrofiadau, syniadau a phobl newydd ac anghyfarwydd. Dylent farnu diddordeb dysgwyr yn eu gwaith, eu gallu i ddal ati i ganolbwyntio ac osgoi tynnu eu sylw. Dylent ystyried pa mor rhwydd y mae dysgwyr yn ymgymryd â thasgau a'u cwblhau.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu anawsterau neu'n chwilio am atebion eraill pan fydd eu dull cyntaf o ymdrin â phroblem yn aflwyddiannus. Dylent edrych ar ba mor dda y gall dysgwyr weithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft yn annibynnol, mewn grwpiau bach ac mewn lleoliadau dosbarth cyfan. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn

dangos parch at gyfraniadau pobl eraill, er enghraifft trwy ganiatáu i ddysgwyr eraill siarad neu drwy aros yn bwylllog pan fydd dysgwyr eraill yn anghytuno â nhw. Dylent arsylwi p'un a yw dysgwyr yn ystyriol ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd ac oedolion eraill.

Wrth werthuso cyfranogiad a mwynhad mewn dysgu, dylai arolygwyr ystyried y dystiolaeth o sesiynau, craffu ar waith dysgwyr, cyfweiliadau â dysgwyr, arsylwi eu hymgysylltiad yn ystod gwersi, a gweithgareddau dysgu anffurfiol eraill.

Dylai arolygwyr bennu agweddau dysgwyr tuag at eu cyfranogiad, a graddau eu cyfranogiad, mewn gweithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth gan gynnwys yn ystod amseroedd egwyl. Er enghraifft, y graddau y mae dysgwyr yn defnyddio'r iaith Gymraeg trwy raglenni cefnogi dysgwyr neu yn y gymuned neu oriau Ffocws ar Ddysgu Cymunedol er mwyn datblygu ac ymarfer eu medrau ieithyddol.

Dylai arolygwyr ystyried natur wirfoddol cyrsiau Cymraeg i Oedolion yn y rhan fwyaf o achosion hefyd. Wrth werthuso presenoldeb fel tystiolaeth o gyfranogiad ac ymgysylltiad dysgwyr â dysgu, dylai arolygwyr adrodd trwy eithriad, h.y. pan fydd tuedd glir o bresenoldeb gwan neu gryf iawn mewn sesiynau a hyfforddiant a gynhelir yn y darparwr, mewn lleoliadau a gweithleoedd allanol. Fodd bynnag, dylai arolygwyr ystyried ffactorau lliniaru hefyd, pan fydd tystiolaeth gadarn i'w cefnogi.

3 Addysgu a phrofiadau dysgu

3.1 Ansawdd yr addysgu

Nid oes rhaid mai gwerthuso'r addysgu yw adran gyntaf y maes arolygu, oherwydd gallai arolygwyr ddechrau ag ansawdd y profiadau dysgu neu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau os bydd hyn yn gwneud eu canfyddiadau'n gliriach.

Wrth werthuso addysgu neu hyfforddi, dylai arolygwyr nodi nad oes templed penodedig y bydd tiwtoriaid yn ei ddilyn, a gallent ddefnyddio ystod o ddulliau gwahanol dros gyfnod. Yr ystyriaeth allweddol yw p'un a yw'r addysgu neu'r hyfforddi yn llwyddiannus o ran ennyn diddordeb dysgwyr ac yn effeithiol o ran datblygu eu medrau iaith, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i lefel briodol o uchel.

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae gan diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o'r holl ddysgwyr. Dylent ystyried i ba raddau y mae gan diwtoriaid amcanion clir ar gyfer dysgu dysgwyr ac yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau i ennyn diddordeb dysgwyr, a'u herio i gyflawni cystal ag y gallant.

Dylai arolygwyr farnu pa mor dda y mae staff yn defnyddio technegau holi amrywiol i amlygu a datblygu ymatebion a syniadau dysgwyr ymhellach lle bo'n briodol. Dylent werthuso pa mor dda y mae'r tiwtoriaid yn rheoli ymddygiad dysgwyr ac yn gwneud eu sesiynau yn lleoedd ysgogol a difyr y gall dysgwyr ar draws yr ystod gallu ddysgu'n gynhyrchiol ynddynt.

Mae asesu yn y maes arolygu hwn yn canolbwyntio ar arfer ystafell ddosbarth. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu a chymhwyso ystod eang o fedrau iaith sy'n briodol i'w lefel.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r adborth llafar ac ysgrifenedig gan diwtoriaid yn helpu dysgwyr i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Dylent ystyried pa mor dda y mae tiwtoriaid yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr asesu eu perfformiad eu hunain, a dysgwyr eraill, lle bo'n briodol. Dylai arolygwyr farnu i ba raddau mae'r dysgwyr yn ymgysylltu ag asesu er mwyn gwella eu gwaith. Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r tiwtoriaid yn olrhain cynnydd pob dysgwr ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio cynllunio yn y dyfodol.

Dylai arolygwyr werthuso rôl tiwtoriaid wrth gynorthwyo dysgwyr i adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd.

Wrth lunio gwerthusiadau ar addysgu, dylai arolygwyr ddefnyddio ystod lawn y dystiolaeth sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn debygol o gynnwys tystiolaeth o lyfrau cyrsiau dysgwyr, cynllunio tiwtoriaid, gwybodaeth am gynnydd a chyflawniad dysgwyr, arsylwadau sesiynau, a thrafodaethau gyda dysgwyr. Ni ddylai arolygwyr ddyrannu barn i sesiwn unigol, ond dylent adrodd ar y cryfderau a'r diffygion mewn addysgu ar draws y darparwr/darparwyr.

3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y ddarpariaeth

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae profiadau dysgu ar draws y ddarpariaeth yn ysgogi a herio dysgwyr fel eu bod yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu ac yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Dylai arolygwyr ystyried y nifer sy'n cofrestru ar gyfer y gwahanol fathau o gyrsiau, yn enwedig cyfrannau'r dysgwyr sy'n dewis dilyn cyrsiau dwys a chyrsiau lefel uwch. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r ddarpariaeth yn darparu ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr, yn enwedig y rheiny sydd â dealltwriaeth a medrau datblygedig. Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae staff hyfforddi a dysgu yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion dysgwyr unigol i'w gynorthwyo'n effeithiol. Dylai arolygwyr ystyried y ffordd mae'r darparwr yn cynnig cyfleoedd teg ar gyfer dysgu i fodloni anghenion ystod o ddysgwyr, er enghraifft y rheiny nad ydynt yn aml yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg, fel pobl sy'n dychwelyd i ddysgu a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Dylai arolygwyr werthuso ehangder y ddarpariaeth a'r modd y mae darparwyr yn archwilio a bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r darparwr yn cynllunio i fodloni anghenion y gymuned ehangach, cyflogwyr a dysgwyr unigol yn ogystal â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a oes ystod briodol o gyrsiau ledled yr ardal y mae'n ei gwasanaethu, gyda llwybrau dilyniant clir. Er enghraifft, sesiynau cymunedol, darpariaeth deilwredig i fodloni anghenion penodol cyflogwyr a grwpiau eraill, cyfleoedd digonol o fewn pellter rhesymol i ddewis cyrsiau o wahanol lefelau dwyster, cyfleoedd yn lleol ar gyfer dilyniant i gyrsiau lefel uwch ac argaeledd cyrsiau cyfunol neu gyrsiau ar-lein.

Dylai arolygwyr ystyried natur a graddau cyfleoedd dysgu ychwanegol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn ystod amseroedd

egwyl, a rhaglenni a gweithgareddau cefnogi dysgwyr sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu medrau iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys gyda siaradwyr Cymraeg rhugl. Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw cyfrannau digonol o ddysgwyr yn manteisio ar y cyfleoedd hyn.

3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae'r trefniadau addysgu yn sicrhau bod dysgwyr yn caffael y medrau angenrheidiol mewn rhuglder llafaredd a llythrennedd i gefnogi eu datblygiad ieithyddol. Dylai arolygwyr roi pwyslais cryf ar fedrau llafaredd a llythrennedd. Dylent asesu i ba raddau y mae darparwyr yn gwahaniaethu addysgu ar gyfer dysgwyr ar lefelau uwchlaw ac islaw lefel y brif sesiwn. Dylent asesu i ba raddau y mae darparwyr yn herio dysgwyr mwy abl.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y caiff dysgwyr eu gwneud yn ymwybodol o fanteision dysgu Cymraeg a dod yn ddwyieithog.

4 Gofal, cymorth ac arweiniad

4.1 Olrhain, monitro a darpariaeth cymorth dysgu

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r darparwr yn olrhain a monitro cynnydd dysgwyr. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r darparwr yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad dysgwyr wrth ystyried cynnydd grwpiau penodol, er enghraifft y dysgwyr hynny y gallai eu hamgylchiadau eu gwneud yn agored i dangyflawni neu'r rheiny sy'n fwy abl. Bydd angen iddynt ystyried pa mor dda y mae'r darparwr yn nodi materion perthnasol ac yn ymateb yn briodol i ganlyniadau olrhain a monitro, er enghraifft trwy ddarparu her a chymorth priodol, defnyddio strategaethau ymyrraeth, mentora neu hyfforddi unigolion neu grwpiau.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r darparwr yn cynorthwyo dysgwyr ag anghenion emosiynol a chymdeithasol fel y gallant fwynhau ac elwa o'u dysgu.

4.2 Datblygiad Personol

Dylai arolygwyr ystyried yr arweiniad a'r cymorth arall a ddarperir i hybu lles dysgwyr a hyrwyddo eu datblygiad personol.

Dylai arolygwyr edrych ar ba mor dda y mae'r darparwr yn helpu dysgwyr i ddeall materion yn ymwneud â chydarddoldeb ac amrywiaeth, ac yn datblygu gwerthoedd goddefgarwch a pharch. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r darparwr yn herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau a disgwyladau dysgwyr. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r darparwr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o aflonyddu, gwahaniaethu a pheryglon radicaleiddio. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r darparwr yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach.

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae'r darparwr yn helpu dysgwyr, gan gynnwys y rheiny o wahanol grwpiau, i ymgymryd â chyfrifoldebau a chwarae rhan lawn yn eu cymuned ddysgu. Wrth werthuso effaith llais dysgwyr, dylai arolygwyr ystyried p'un a yw safbwyntiau dysgwyr ynghylch beth a sut maent yn dysgu, yn cael eu cymryd o ddifrif a sut mae darparwyr yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn ystyrlon gyda nhw.

Dylai arolygwyr werthuso effeithiolrwydd arweiniad a chyngor diduedd a roddir i ddysgwyr gan ddarparwyr cyn iddynt ddechrau eu rhaglen. Dylent farnu effeithiolrwydd ffynonellau gwybodaeth fel prospectysau, taflenni cyrsiau a gwefan y darparwyr a chyfryngau electronig eraill.

Dylent ystyried y graddau y mae dysgwyr yn newid rhwng darpariaeth nad yw'n ddwys a darpariaeth ddwys yn unol â newid mewn anghenion a dyheadau.

Dylai arolygwyr ystyried cydlyniad ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cymorth personol ac arbenigol i ddysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau asiantaethau arbenigol sydd ar gael yn y darparwr a chan asiantaethau allanol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu, gan gynnwys cyfrifoldebau personol, ariannol, domestig, cludiant, iechyd a gofal teulu

4.3 Diogelu

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae trefniadau diogelu'r darparwr yn sicrhau bod recriwtio diogel o ran staff, a pha mor dda y mae'r darparwr yn diogelu dysgwyr. Dylai trefniadau gynnwys nodi dysgwyr mewn angen neu sydd mewn perygl o niwed sylweddol a chynnal cofnod o addasrwydd staff a chael trefniadau addas ar gyfer diogelu. Nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparwyr wirio tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion oni bai fod eu gweithgareddau mewn categori sy'n ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i gael gwiriad. Fodd bynnag, dylai arolygwyr wirio a yw darparwyr wedi cynnal asesiadau risg ar ddsbarthiadau Cymraeg i Oedolion, a bod darparwyr wedi cynnal gwiriadau cyn-cyflogaeth ar bob un o'r staff. Dylai arolygwyr wirio hefyd pa mor dda y mae'r darparwr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant o ddiogelwch. Bydd arolygwyr yn adrodd ar b'un a yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn bodloni gofynion ac nad ydynt yn destun pryder.

Bydd arolygwyr yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer diogelu, gan gynnwys iechyd a diogelwch, (er enghraifft, gwiriadau iechyd a diogelwch ar leoliadau addysgu allanol) bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu. Dylai arolygwyr ystyried sut mae'r darparwr yn cadw dysgwyr yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a oes gan y darparwr weithdrefnau trylwyr ar gyfer gwirio addasrwydd staff a phobl eraill sydd mewn cysylltiad â dysgwyr, a bod pob un o'r staff yn gwybod beth i'w wneud i ymateb i faterion diogelu. Bydd angen i arolygwyr ystyried p'un a oes gan y darparwr bolisiau, gweithdrefnau a threfniadau adrodd priodol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, gan gynnwys y corff llywodraethol

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir a nodau, amcanion strategol a chynlluniau sy'n gyson ag amcanion y Ganolfan Genedlaethol, a pholisiau priodol sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion dysgwyr.

Dylai arolygwyr fyfyrto ar ba mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, dysgwyr a'u hunain. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn datblygu tîm effeithiol ac ymgysylltiol o staff

cymorth. Dylent ystyried i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r darparwr a chydweithredu effeithiol rhwng staff a darparwyr eraill. Dylent ystyried pa mor dda ar bob lefel y mae staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a pha mor dda y maent yn cydweithredu wrth ddatblygu blaenoriaethau strategol a gwella.

Dylai arolygwyr ystyried ystod eang o dystiolaeth wrth werthuso ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth, er enghraifft cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd diweddar, cyfweiliadau â staff, cynlluniau gweithredu gwelliannau ac adroddiadau ar weithredu'r rhain, hunanasesiad diweddar gan arweinwyr a rheolwyr, a dadansoddi gwybodaeth am berfformiad dysgwyr.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a pha mor dda y maent yn gwneud penderfyniadau ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n cydbwysu anghenion uniongyrchol, tymor byr ag anghenion tymor hir dysgwyr, y gymuned leol a Chymru.

Dylai arolygwyr edrych ar y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn cynnal darpariaeth ansawdd uchel neu'n gwella agweddau gwan ar y ddarpariaeth. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf a pha mor gyflym y maent yn cychwyn unrhyw gamau unioni gofynnol.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn llwyddo i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol sy'n benodol i'r sector a bennir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol .

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn rhannu nodweddion cadarnhaol y ddarpariaeth gyda staff ac yn cydweithredu â darparwyr a phartneriaid addysg eraill yn y sector i gyflawni gwelliannau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Dylai arolygwyr ganolbwyntio ar ba mor dda y mae'r darparwr yn defnyddio partneriaethau strategol a chydweithredu ag asiantaethau eraill i helpu i feithrin ei allu i wella'n barhaus.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae arweinwyr ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dylent ystyried pa mor dda y maent yn gyfarwydd â chryfderau'r darparwr a'i feysydd i'w datblygu, a'r graddau y maent wedi cymryd rhan yn y gwaith i osod blaenoriaethau strategol y darparwr. Dylent ystyried a oes cydbwysedd priodol rhwng cymorth a her yn y ffordd y mae'r corff rheoli neu lywodraethol yn dwyn uwch arweinwyr i gyfrif.

5.2 Prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

Dylai arolygwyr werthuso pa mor gywir y mae arweinwyr a rheolwyr yn adnabod cryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn casglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau'r ddarpariaeth, gan gynnwys addysgu ac asesu, ac o ganlyniad i gynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid a rhan ddeiliaid priodol ac ymgynghori â nhw, megis darparwyr Cymraeg i Oedolion eraill, rhwydweithiau dysgu proffesiynol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Dylai arolygwyr ystyried ansawdd cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda y mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd yn cysylltu â deilliannau hunanwerthusiad y darparwr. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu cefnogi trwy ddyrannu adnoddau. Dylent werthuso pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella o fewn amserlenni penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb am eu cyflawni.

Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r darparwr yn defnyddio data gyda darparwr eraill a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gymharu deilliannau dysgwyr yn lleol ac yn genedlaethol trwy weithgareddau meincodi pan fo'n briodol.

Dylai arolygwyr ymchwilio i hanes y darparwr o wneud gwelliannau a'r graddau y maent wedi arwain at effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles dysgwyr, er enghraifft trwy welliannau i ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi. Lle y bo'n briodol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r darparwr wedi ymateb i argymhellion arolygiadau blaenorol Estyn neu argymhellion gan bartneriaid strategol neu'r Ganolfan Genedlaethol, ac a yw camau gweithredu'r darparwr wedi arwain at welliannau.

5.3 Dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cynorthwyo'r holl staff i ymroi'n weithgar i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol. Dylent ystyried y graddau y mae staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol, gwerthuso a rheoli perfformiad.

Dylai arolygwyr werthuso effaith arweinwyr yn y ffordd y maent yn rheoli perfformiad staff er mwyn helpu staff i wella'u harfer. Dylent hefyd farnu p'un a yw arweinwyr a rheolwyr yn mynd i'r afael â materion tanberfformio yn drylwyr ac yn uniongyrchol, lle bydd angen.

Dylent ystyried dysgu proffesiynol a wnaed gan staff, a'i effaith ar ddysgu dysgwyr a'u harfer eu hunain. Dylent archwilio i ba raddau y mae staff wedi rhannu deilliannau datblygiad proffesiynol gyda staff eraill. Dylent fwrw golwg ar ba mor dda y mae arweinwyr wedi amlygu arfer dda yn y darparwr a sicrhau bod staff eraill yn gallu elwa ohoni. Hefyd, dylent ystyried pa mor dda y mae staff yn gweithio gyda darparwr datblygiad proffesiynol i'w helpu i ddatblygu eu harfer broffesiynol. Dylent archwilio pa mor dda y mae staff yn cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu proffesiynol cenedlaethol a arweinir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, er enghraifft, fforymau datblygiad proffesiynol, rhaglenni hyfforddiant a Chymhwyster Cenedlaethol Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion.

5.4 Y defnydd ar adnoddau

Dylai arolygwyr werthuso'r graddau y mae penderfyniadau gwariant y darparwr a'i gynllunio ariannol bras yn cysylltu'n briodol â'i flaenoriaethau strategol a chynllunio'r darparwr ar gyfer gwella. O ran penderfyniadau gwariant, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r darparwr yn cydbwysu'i anghenion tymor byr ochr yn ochr ag anghenion tymor hir dysgwyr a blaenoriaethau cenedlaethol a bennir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwybod beth yw costau rhaglenni a gweithgareddau hyfforddi presennol, yn eu hadolygu ac yn cwestiynu a ydynt yn gost-effeithiol. Dylai arolygwyr ystyried maint unrhyw warged neu ddiffyg o gymharu â chyllideb y darparwr. Dylent ystyried a oes tuedd gyson o wario sydd uwchlaw neu islaw'r gyllideb ddirprwyedig flynyddol yn sylweddol ac archwilio'r rhesymau dros hyn, lle y bo'n digwydd. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn monitro gwariant, gan gynnwys pennu bod gwariant ar weithgareddau heblaw addysgu wedi ei gyfyngu i ddim mwy nag 15% o gyfanswm y gwariant a ddyrannwyd. Dylai arolygwyr wirio effeithiolrwydd y prosesau hyn.

Dylai arolygwyr ystyried a oes lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno'r ddarpariaeth arfaethedig yn effeithiol. Dylai arolygwyr ystyried a yw'r darparwr yn defnyddio lleoliadau yn effeithiol ac yn effeithlon, a'r graddau y mae'r adeiladau ac offer, mewn lleoliadau mewnol ac allanol, yn cefnogi neu'n rhwystro addysgu a dysgu o ansawdd uchel.

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Bydd yr adroddiad yn cynnwys trosolwg bras o sail dystiolaeth yr arolygiad. Yn yr adran hon, bydd arolygwyr cofnodol yn crynhoi'r gweithgareddau y mae aelodau o'r tîm arolygu yn ymgymryd â nhw, a'r ffynonellau tystiolaeth y gwnaethant eu hystyried cyn, yn ystod ac ar ôl yr arolygiad, i sicrhau bod canfyddiadau'r arolygiad yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy.

Atodiad 1: Arweiniad ar gyfer arolygiadau o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Cymraeg i Oedolion) o Fedi 2020

Mae'r arweiniad hwn yn amlinellu'r ffordd y bydd yr arolygiaeth yn cynnal arolygiadau o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'n cynnig arweiniad i arolygwyr i arfarnu gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol mewn perthynas â'i gwaith strategol yn arwain Cymraeg i Oedolion yn genedlaethol.

1. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gyfrifol am bob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg – o'r cwricwlwm ac adnoddau ar gyfer tiwtoriaid i ymchwil, marchnata, cyfathrebu ac e-ddysgu.
2. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn gweithredu fel corff hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru, sy'n ei hariannu, a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a enillodd y tendr i'w sefydlu.
3. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn gyfrifol am 11 o ddarparwyr sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan fel a ganlyn:

Brand lleol	Sefydliad	Ardaloedd Llywodraeth Leol
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Prifysgol Bangor	Gwynedd, Môn, Conwy
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Coleg Cambria/ Popeth Cymraeg	Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam
Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gar	Prifysgol Aberystwyth	Ceredigion, Powys, Sir Gar (rhan benodol o'r ddarpariaeth)
Dysgu Cymraeg Sir Gar	Cyngor Sir Gâr	Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth)
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Prifysgol Abertawe	Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro	Sir Benfro
Dysgu Cymraeg Gwent	Coleg Gwent	Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili
Dysgu Cymraeg Y Fro	Cyngor Bro Morgannwg	Bro Morgannwg
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Prifysgol Caerdydd	Caerdydd
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Prifysgol De Cymru	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Canolfan Nant Gwrtheyrn	Cenedlaethol

Yn ogystal, mae'r Ganolfan Genedlaethol yn gyfrifol am gynnal cynlluniau cenedlaethol eraill megis Cymraeg Gwaith a phartneriaethau fel y Clwb Cwtsh.

Arolygir pob darparwr Dysgu Cymraeg o leiaf unwaith yn ystod y cylch arolygu. Nid oes gweithgarwch dilyniant, yn hytrach bydd arolygwyr yn gwerthuso cynnydd darparwyr Dysgu Cymraeg yn arolygiadau y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd arolygwyr yn gwerthuso gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella ond ni fyddant yn gosod graddau crynodol. Bydd arolygwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn argymhellion yn ystod yr arolygiad dilynol o'r Ganolfan Genedlaethol.

Bydd arolygwyr yn ystyried a yw'r Ganolfan Genedlaethol yn peri pryder sylweddol ac a oes angen gweithgarwch dilyniant. Os bydd angen gweithgarwch dilyniant bydd angen i'r darparwr lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella. Bydd arolygwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu hwn.

Dyma resymau posibl dros nodi bod y Ganolfan Genedlaethol yn destun pryder sylweddol:

- cyfran uchel o ddysgwyr yn tangyflawni dros gyfnod neu ddirywiad sylweddol mewn cyflawniad dros gyfnod
- cyfran uchel o ddarparwyr Dysgu Cymraeg yn cael eu barnu o gynnig darpariaeth o safon isel yn ystod arolygiadau o'r darparwyr hynny
- methu mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn ystod arolygiadau blaenorol o ddarparwyr Dysgu Cymraeg unigol neu arolygiadau blaenorol y Ganolfan Genedlaethol ei hunan neu drwy weithgarwch mewnol neu allanol arall
- gwendidau pwysig mewn uwch arweinyddiaeth
- unrhyw bryder arall sy'n achosi risg sylweddol i les neu gyflawniad dysgwyr

Mae Estyn yn awyddus i hywyddo rhagoriaeth mewn meysydd addysg. Os yw'r tîm arolygu wedi nodi cryfderau sylweddol yna bydd Estyn yn gweithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol i rannu ei gwaith â sectorau eraill.

Pan fo'n bosibl bydd arolygwyr yn arsylwi rhaglenni dysgu penodol a ddarperir gan y Ganolfan ei hun, er enghraifft rhaglenni Cymraeg Gwaith.

Bydd pob adroddiad yn cynnwys crynodeb o ddeilliannau arolygu cyfansawdd darparwyr Dysgu Cymraeg a arolygwyd ar gyfer pob maes arolygu. Pan fydd yn bosib arolygu darpariaeth atodol sy'n cael ei chynnal gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, megis Cymraeg Gwaith, bydd arolygwyr yn gwerthuso'r rhain yn unol â'r fframwaith arolygu ar gyfer Dysgu Cymraeg. Yn ychwanegol at hyn, bydd arolygwyr yn gwerthuso arweiniad strategol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel a ganlyn:

Cynllunio darpariaeth

Dylai arolygwyr werthuso ehangder y ddarpariaeth a'r modd y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn archwilio a bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cydlynu gwaith cynllunio'r darparwyr i fodloni anghenion y gymuned ehangach, cyflogwyr a dysgwyr unigol yn ogystal â blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd unrhyw bartneriaethau gyda sefydliadau eraill i gyflawni hyn.

Dylai arolygwyr ystyried p'un a oes ystod briodol o gyrsiau ledled Cymru, gyda llwybrau dilyniant clir. Er enghraifft, dysgu cymdeithasol, darpariaeth deilwredig i fodloni anghenion penodol cyflogwyr a grwpiau eraill, cyfleoedd digonol o fewn pellter rhesymol i ddewis cyrsiau o wahanol lefelau dwyster, cyfleoedd yn lleol ar gyfer dilyniant i gyrsiau lefel uwch ac argaeledd cyrsiau cyfunol, cyrsiau o bell neu gyrsiau ar-lein.

Dylai arolygwyr arfarnu effeithiolrwydd arweiniad a chyngor diduedd a roddir i ddysgwyr gan y Ganolfan trwy ei borth electronig neu drwy ffyrdd eraill cyn iddynt ddechrau ar eu rhaglen. Dylent farnu effeithiolrwydd ffynonellau gwybodaeth fel prospectysau, taflenni cyrsiau, gwefan y Ganolfan a chyfryngau electronig eraill yn genedlaethol a sut mae'r Ganolfan yn cydlynu a chysoni hyn oll ar draws y darparwyr.

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae dysgwyr yn medru newid rhwng darparwyr neu ddarpariaeth nad yw'n ddwys a darpariaeth ddwys, neu ddarpariaeth wyneb yn wyneb a darpariaeth o bell/cyfunol/ar-lein, yn unol â newid mewn anghenion a dyheadau.

Dylai arolygwyr ystyried y nifer sy'n cofrestru ar gyfer y gwahanol fathau o gyrsiau, yn genedlaethol ac o fewn darparwyr unigol, yn enwedig cyfrannau'r dysgwyr sy'n dewis dilyn cyrsiau dwys a chyrtsiau lefel uwch. Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda y mae'r Ganolfan yn darparu ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr. Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae staff hyfforddi a dysgu yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion dysgwyr unigol i'w cynorthwyo'n effeithiol. Dylai arolygwyr ystyried y ffordd mae'r darparwyr yn cynnig cyfleoedd teg ar gyfer dysgu i fodloni anghenion ystod o ddysgwyr, er enghraifft y rheiny nad ydynt yn aml yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg, fel pobl sy'n dychwelyd i ddysgu a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

Dylai arolygwyr arfarnu effeithiolrwydd y Ganolfan i sicrhau a monitro bod trefniadau diogelu darparwyr unigol yn sicrhau recriwtio diogel o ran staff, a pha mor dda y mae'r darparwyr yn diogelu dysgwyr.

Dylai arolygwyr ystyried natur a graddau cyfleoedd dysgu ychwanegol y tu allan i'r dosbarth ar draws y darparwyr a thrwy Gymru a'r prosesau i fonitro hyn. Er enghraifft, y defnydd a wneir o'r Gymraeg yn ystod amseroedd egwyl, a rhaglenni a gweithgareddau cefnogi dysgwyr sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu medrau iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys gyda siaradwyr Cymraeg rhugl a chyfleoedd yng ngweithleoedd y dysgwyr i roi'r hyn maent yn ei ddysgu ar waith. Dylai arolygwyr ystyried p'un a yw cyfrannau digonol o ddysgwyr yn manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr, rheolwyr a'r drefn lywodraethol

Mae cysylltiad cryf rhwng deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Os yw arweinwyr a rheolwyr yn gweithio'n effeithiol, yna adlewyrchir hyn yn ansawdd darparwyr ac yn y deilliannau ar gyfer dysgwyr y Gymraeg fel arfer. Dylai arolygwyr asesu ansawdd yr arweinyddiaeth fewnol a ddarperir gan y Ganolfan Genedlaethol, yn ogystal â'i harweinyddiaeth, neu gyfraniad unrhyw drefniadau partneriaeth at yr arweinyddiaeth a'i heffaith ar ddeilliannau'r dysgwyr. Hefyd, dylent edrych ar ansawdd y berthynas rhwng y Ganolfan Genedlaethol a'i darparwyr a phartneriaid eraill o ran eu heffaith ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr trwy Gymru.

Dylai arolygwyr edrych ar ddata perfformiad sy'n cwmpasu cyfnod o amser, fel arfer dros o leiaf y tair blynedd diwethaf, pan fydd ar gael, i nodi tueddiadau mewn perfformiad. Dylai arolygwyr ddadansoddi data a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Genedlaethol ei hunan drwy Data Agored, gan gynnwys data meincnodi, pan fo'n briodol. Dylai arolygwyr ystyried effaith y Ganolfan Genedlaethol ar gynyddu'r niferoedd sy'n gwybod am wersi Cymraeg, cynyddu'r niferoedd sy'n dysgu'r Gymraeg ac yn cyrraedd rhuglder trwy fynychu cyrsiau a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Dylai arolygwyr arfarnu effeithiolrwydd marchnata cenedlaethol a lleol a'r arweiniad strategol a chymorth ymarferol a gynigir i ddarparwyr. Dylent ystyried a yw marchnata yn adlewyrchu amcanion strategol y sector.

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor effeithiol mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cydweithio â darparwyr er mwyn sicrhau cynnydd grwpiau penodol o ddysgwyr, er enghraifft dysgwyr ar wahanol lefelau a mathau o gyrsiau, e.e. cyrsiau dwys, Cymraeg Gwaith, Cymraeg i'r Teulu, cyrsiau eraill yn y gweithle, yn ogystal â dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a'r rheiny o grwpiau ethnig lleiafrifol, os yw'r data perthnasol ar gael. Dylai arolygwyr ystyried pa mor gyson a chyfartal yw profiadau dysgu ac addysgu dysgwyr ar draws y darparwyr. Er enghraifft, y math o gyrsiau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a gynigir, yn ogystal â'r deunyddiau a'r trefniadau asesu a ddefnyddir gan ddarparwyr trwy Gymru.

Dylai arolygwyr roi sylwadau ar gyfran y dysgwyr sy'n ennill cymwysterau Cymraeg i Oedolion neu gymwysterau perthnasol eraill pan fo'n briodol. Dylai arolygwyr ystyried nad yw cymwysterau Cymraeg i Oedolion yn orfodol.

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn sicrhau bod y sector (darparwyr a'r Ganolfan ei hun) yn olrhain a monitro cynnydd dysgwyr. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cydweithio â darparwyr i ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad dysgwyr wrth ystyried cynnydd grwpiau penodol, er enghraifft y dysgwyr hynny y gallai eu hamgylchiadau eu gwneud yn agored i dangyflawni neu'r rheiny sy'n fwy abl. Dylai arolygwyr ystyried cydlyniant a dylanwad y Ganolfan Genedlaethol ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cymorth personol a arbenigol i ddysgwyr ar draws darparwyr.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r Ganolfan Genedlaethol yn gweithio gyda darparwyr i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion emosiynol a chymdeithasol fel y gallant fwynhau ac elwa o'u dysgu. Dylent ystyried yr arweiniad a ddarperir gan y Ganolfan Genedlaethol i ddarparwyr i ddatblygu lles dysgwyr a hyrwyddo eu datblygiad personol.

Dylai arolygwyr arfarnu i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir a nodau, amcanion strategol, cynlluniau a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar fodloni anghenion pob dysgwr. Dylent farnu a yw arweinwyr a rheolwyr yn creu ac yn cynorthwyo cyd-ddealltwriaeth o anghenion a blaenoriaethau a nodwyd yn glir ar gyfer dysgwyr ymhlith staff y Ganolfan Genedlaethol a'r darparwyr.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwneud penderfyniadau ac yn pennu blaenoriaethau ar gyfer gwella sy'n cydbwysu anghenion uniongyrchol tymor byr gydag anghenion tymor hir dysgwyr, y darparwyr a Chymru, gan gynnwys polisïau Llywodraeth Cymru i gynyddu'r niferoedd sy'n siarad a defnyddio'r Gymraeg yng Nghymru.

Dylai arolygwyr fyfyrion ar ba mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer swyddogion, darparwyr a phartneriaid. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn datblygu tîm effeithiol o staff.

Dylent ystyried i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn modelu ac yn hybu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella darparwyr a chydweithredu effeithiol rhwng staff a darparwyr. Dylent ystyried pa mor dda y mae staff ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a pha mor dda y maent yn cydweithredu wrth ddatblygu blaenoriaethau strategol a chynlluniau ar gyfer sector Cymraeg i Oedolion.

Dylai arolygwyr farnu a yw'r arweinyddiaeth wedi gwneud penderfyniadau anodd mewn modd amserol lle bo angen, yn dilyn proses drwyadl ac agored o archwilio ac ymgynghori sy'n gyson ag amcanion strategol.

Dylai arolygwyr edrych ar y graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn cynnal ansawdd uchel neu'n gwella agweddau gwan ar ddarpariaeth. Dylent ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn nodi ac yn asesu risgiau, yn atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf a pha mor gyflym y maent yn rhoi camau unioni priodol ar waith pan fydd problemau'n digwydd.

Dylai arolygwyr farnu, trwy graffu ar ddogfennau, cyfweliadau ac adroddiadau arolygu, pa mor glir a thryloyw y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cyfleu ei gweledigaeth, ei bwriadau a deilliannau disgwyliedig i ddarparwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill, ac yn ymgynghori â nhw.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn comisiynu, cydlynu, goruchwyllo ac yn monitro unrhyw ddarpariaeth neu wasanaethau wedi'u contractio. Er enghraifft, darpariaeth ar gyfer sectorau penodol.

Dylai arolygwyr ystyried a yw rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr, contractwyr neu bartneriaid, yn ymwybodol o'r targedau ar gyfer y ddarpariaeth neu wasanaethau, ac wedi ymrwymo'n llawn i'w cyflawni.

Dylai arolygwyr arfarnu defnyddioldeb prosesau craffu. Dylai arolygwyr farnu eglurder a gonestrwydd data a gwybodaeth ynghyd â dadansoddiad ac arfarniad cysylltiedig a gyflwynir i'r byrddau cyfarwyddwyr ac ymgynghorol.

Prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor gywir y mae arweinwyr a rheolwyr yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella sector Cymraeg i Oedolion o ganlyniad i brosesau sefydledig ar gyfer hunanarfarnu, monitro a sicrhau ansawdd.

Bydd arolygwyr yn arfarnu'r graddau y mae'r hunanarfarnu yn rhan o gylch gwella arferol y Ganolfan Genedlaethol, wedi'i gefnogi gan wybodaeth berthnasol am berfformiad a thystiolaeth fel adroddiadau perfformiad, adroddiadau cynnydd a dadansoddiadau data a ddarperir i'r pwyllgorau a byrddau priodol.

Dylai arolygwyr arfarnu pa mor dda y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cynnwys rhanddeiliaid, ac yn ystyried barnau rhanddeiliaid yn ei phrosesau arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella, gan gynnwys dysgwyr, darparwyr a phartneriaid.

Dylai arfarnu'r graddau y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn annog a defnyddio prosesau llais y dysgwyr yn lleol ac yn genedlaethol. Wrth arfarnu effaith llais dysgwyr, dylai arolygwyr ystyried p'un a yw safbwyntiau dysgwyr yn cael eu cymryd o ddifrif a sut mae'r Ganolfan yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn ystyrlon gyda nhw a darparwyr i weithredu'n briodol.

Darparwyr unigol sydd yn gyfrifol am les a gofal i ddysgwyr unigol a gweithdrefnau perthnasol i sicrhau hynny o fewn eu sefydliadau eu hunain. Fodd bynnag, dylai arolygwyr, yn ystod arolygiad o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol arfarnu sut mae'r Ganolfan Genedlaethol yn monitro'r agweddau hyn a'r camau maent yn eu cymryd i unioni unrhyw anawsterau sy'n codi.

Dylai arolygwyr ystyried ansawdd cynllunio ar gyfer gwella a pha mor dda y mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn cysylltu â chanfyddiadau hunanarfarniad y Ganolfan Genedlaethol, ac yn cael eu llywio gan archwilio, asesiadau o anghenion a dadansoddi data.

Dylai arolygwyr wirio cysondeb a chydlyniant cynlluniau gyda'r darparwyr, ac yn allanol gyda phartneriaid. Dylai arolygwyr ystyried sut mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod blaenoriaethau yn cael eu cefnogi trwy ddyrannu adnoddau. Dylent arfarnu'r graddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella, a'r graddau y gellir eu cyflawni. Dylent ystyried pa mor dda y mae cynlluniau yn cynnwys amserlenni penodol a realistig ac yn dyrannu cyfrifoldeb priodol am eu cyflawni.

Dylai arolygwyr farnu effeithiolrwydd trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a'u heffaith ar staff, gwasanaethau, partneriaid a datblygu'r gweithlu.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi ymateb i argymhellion o adroddiadau arolygu diweddar, adolygiadau thematig ac adroddiadau o'r darparwyr, gan gynnwys argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiadau hynny. Dylai arolygwyr farnu'r graddau y mae camau'r Ganolfan Genedlaethol wedi arwain at welliannau mewn safonau ac ansawdd yn fewnol neu o fewn y darparwyr eu hunain. Dylent ystyried cyflymder cynnydd a chynaliadwyedd unrhyw welliannau.

Dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr arfarnu i ba raddau y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn arwain ar ddatblygiadau yn ymwneud ag addysgu a dysgu i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn addysgu o'r radd flaenaf ble bynnag a sut bynnag maent yn dilyn eu cyrsiau.

Dylai arolygwyr arfarnu i ba raddau y mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff yn y sector, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer cynorthwyo'r holl staff i ymroi'n weithgar i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol. Dylent ystyried y graddau y mae staff yn cymryd rhan yn effeithiol mewn profiadau dysgu proffesiynol, gwerthuso a rheoli perfformiad.

Dylai arolygwyr arfarnu effaith arweinwyr yn y ffordd y maent yn rheoli perfformiad staff mewnol y Ganolfan Genedlaethol ei hun yn ogystal â darparwyr Cymraeg i Oedolion er mwyn helpu staff i wella'u harfer. Dylent hefyd farnu p'un a yw arweinwyr a rheolwyr yn mynd i'r afael â materion tanberfformio ar lefel unigolion ac ar lefel y darparwyr yn drylwyr ac yn uniongyrchol, lle bydd angen.

Dylent ystyried dysgu proffesiynol a wnaed gan staff, a'i effaith ar ddysgu dysgwyr a'u harfer eu hunain. Dylent archwilio i ba raddau y mae staff yn y sector wedi rhannu deilliannau datblygiad proffesiynol gyda staff eraill. Dylent fwrw golwg ar ba mor dda y mae arweinwyr cenedlaethol wedi amlygu arfer dda yn y darparwyr a sicrhau bod darparwyr a staff eraill yn gallu elwa ohoni. Hefyd, dylent ystyried pa mor dda y mae staff yn gweithio gyda darparwyr datblygiad proffesiynol i'w helpu i ddatblygu eu harfer broffesiynol. Dylent archwilio pa mor dda y mae staff yn y sector yn cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu proffesiynol cenedlaethol a arweinir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, er enghraifft, fforymau datblygiad proffesiynol, cysylltiadau rhyngwladol, rhaglenni hyfforddiant a Chymhwyster Cenedlaethol i Diwtoriaid Cymraeg i Oedolion.

Defnyddio adnoddau

Dylai arolygwyr arfarnu'r graddau y mae penderfyniadau gwariant y Ganolfan Genedlaethol a'i chynllunio ariannol bras yn cysylltu'n briodol â'i blaenoriaethau strategol a chynllunio'r darparwyr ar gyfer gwella. O ran penderfyniadau gwariant, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r Ganolfan Genedlaethol yn cydbwysu'i hanghenion tymor byr ochr yn ochr ag anghenion tymor hir dysgwyr a blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys y defnydd o dechnoleg i ehangu mynediad a gwella profiadau dysgwyr .

Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwybod beth yw costau darparwyr, rhaglenni a gweithgareddau hyfforddi presennol, yn eu hadolygu ac yn cwestiynu a ydynt yn gost-effeithiol. Dylai arolygwyr ystyried maint unrhyw warged neu ddiffyg o gymharu â chyllideb y Ganolfan Genedlaethol a'i darparwyr. Dylent ystyried a oes tuedd gyson o wario sydd uwchlaw neu islaw'r gyllideb ddirprwyedig flynyddol yn sylweddol ac archwilio'r rhesymau dros hyn, lle y bo'n digwydd. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn monitro gwariant, gan gynnwys pennu bod gwariant gan ddarparwyr ar weithgareddau heblaw addysgu wedi ei gyfyngu i ddim mwy nag 15% o gyfanswm y gwariant a ddyrannwyd. Dylai arolygwyr wirio effeithiolrwydd y prosesau hyn.

Dylai arolygwyr ystyried a oes lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno'r ddarpariaeth arfaethedig o fewn y Ganolfan ac o fewn darparwyr y sector yn effeithiol. Dylai arolygwyr ystyried a yw'r Ganolfan Genedlaethol yn sicrhau bod darparwyr yn defnyddio lleoliadau yn effeithiol ac yn effeithlon, a'r graddau y mae'r adeiladau ac offer, mewn lleoliadau mewnol ac allanol, yn cefnogi neu'n rhwystro addysgu a dysgu o ansawdd uchel.